OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2021 Rhif 431 (Cy. 138)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470 a'r A489 (Cyffordd Moat Lane, Caersŵs, Powys) (Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *30 Mawrth 2021* |
| *Yn dod i rym* | *3 Ebrill 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffyrdd yr A470 a'r A489, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd, neu gerllaw iddynt, ac oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470 a'r A489 (Cyffordd Moat Lane, Caersŵs, Powys) (Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 3 Ebrill 2021.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y cefnffyrdd" ("*the trunk roads*") yw cefnffordd yr A470 a'r A489 y Drenewydd i Aberystwyth a chefnffordd yr A470 Caersŵs i Fachynlleth;

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**); a

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

  (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

  (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 3 Ebrill 2021 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Cyfyngiad a gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**5.**—(1) Ni fydd y cyfyngiad a'r gwaharddiad yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

---

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

**Atal dros dro**

**6.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

**Cyfnod para'r Gorchymyn hwn**

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 30 Mawrth 2021

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN**

Y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o bwynt 408 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt cyffordd Moat Lane, Caersŵs yr A470/A489 hyd at bwynt 355 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt y gyffordd honno.

Y darn o gefnffordd yr A489 sy'n ymestyn o ganolbwynt cyffordd Moat Lane, Caersŵs yr A470/A489 hyd at bwynt 300 metr i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.